DATBLYGIADAU AR SAFLEOEDD TIR LLWYD

Yn syml, mae safle tir llwyd yn dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Mae'r argyfwng tai cynyddol wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y tir sydd ar gael i ni. Anelir datblygiadau newydd tuag at ardaloedd trefol ac ailddatblygu ac adfywio safleoedd a ddatblygwyd eisoes.

Gall datblygu tir llwyd fod yn broblemus o ganlyniad i weithgareddau blaenorol ar y safleoedd hyn. Yn aml, bydd y tir wedi ei lygru a bydd gofyn ei ddadlygru cyn i unrhyw ailddatblygiad ddigwydd.

Mae materion rheoli wrth integreiddio datblygiadau newydd i mewn i ddatblygiadau trefol presennol. Gall y cyfuniad o dai hen a newydd, eu nifer a sut y gwasanaethir nhw achosi problemau.